Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gatholig y Santes Fair - Brynmawr

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ysgol groesawgar a gofalgar lle mae staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i greu cymuned ddysgu gefnogol, gan rannu gweledigaeth yr ysgol i 'weithio, gweddïo, rhannu a dysgu gyda'n gilydd'. Mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach, i greu amgylchedd dysgu llwyddiannus lle mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cynnwys.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn gweithio'n agos i gynorthwyo pob aelod o'r gymuned, gan ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer teuluoedd newydd, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r gymuned ac nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i deuluoedd gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, yn ystod y diwrnod ysgol ac mewn digwyddiadau ar ôl yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi lles disgyblion wrth ganol ei gwaith, ac yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion bregus.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a darllen yn dda. Maent yn cymhwyso'u medrau rhifedd i gefnogi eu dysgu mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth gwblhau graffiau bar i gofnodi pellterau a deithiwyd gan athletwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol priodol i greu cyflwyniadau a chreu animeiddiadau syml. Fodd bynnag, mae medrau llafaredd ac ysgrifennu disgyblion yn llai datblygedig ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i adeiladu ar eu medrau llythrennedd yn raddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Pan mae'r addysgu'n effeithiol, mae athrawon yn defnyddio asesiadau'n briodol i gynllunio gwersi sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion, ac maent yn sicrhau bod her addas ar gyfer pob un o'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu, mae disgwyliadau'n rhy isel a cheir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae arweinwyr yn datblygu prosesau hunanwerthuso i werthuso a monitro'r cynnydd a wna disgyblion, ac mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol, yn enwedig mewn darllen. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae defnydd arweinwyr o hunanwerthuso a monitro i gefnogi cynllunio gwelliant yn eang a hir ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar y meysydd pwysicaf i ysgogi gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r corff llywodraethol i reoli cyllideb yr ysgol yn briodol a sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn gadarn. Mae'r tîm arweinyddiaeth newydd a ffurfiwyd yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro ar y cyd i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn cysylltu ag athrawon i gryfhau eu gwybodaeth am ddiwygio diweddar, yn cynnwys diwygio ADY a Chwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn sefydlu perthnasoedd effeithiol ag ysgolion eraill ac mae hyn yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon, gan gryfhau eu gwybodaeth a'u medrau o ran newidiadau i'r cwricwlwm.

# Argymhellion

**A1** **Canolbwyntio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar feysydd datblygu'r ysgol y mae angen eu gwella fwyaf**

**A2** **Mynd i'r afael â'r anghysondebau mewn addysgu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gatholig y Santes Fair - Brynmawr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig Rufeinig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 235 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 196 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 39 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 24.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 10.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 20.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/06/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.